

20 Mai 2021

***Neges at sylw rhieni myfyrwyr Blwyddyn 12**

Annwyl Riant / Warchodwr,

Gobeithiaf eich bod chi a'r teulu yn cadw'n dda yn ystod y cyfnod yma sy'n parhau i fod yn ansicr. Mae'n braf iawn dweud bod yr asesiadau'n mynd yn hwylus gyda'n myfyrwyr ym mlwyddyn 12 a diolch mawr i chi fel rhieni ac i'n myfyrwyr am eich cefnogaeth gyda'r broses yma.

Tra ein bod yn aros am wybodaeth bellach oddi wrth Gymwysterau Cymru a CBAC ynglŷn â sut y bydd graddau Safon Uwch myfyrwyr Blwyddyn 12 yn cael eu cyfrifo'r flwyddyn nesaf, hoffwn eich hysbysu o'r cynllun arfaethedig ar gyfer ein myfyrwyr Blwyddyn 12 hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd. Yn gyntaf, hoffwn bwysleisio bod gwersi myfyrwyr blwyddyn 12 yn parhau tan ddydd Iau, 27ain o Fai. Mae'n hanfodol bod pob myfyriwr yn ymglymu gyda'r dysgu yn gyfan gwbl, er bod cyfnod yr asesiadau mewn pwnc efallai wedi gorffen.

Dyma'r cynllun ar gyfer ein myfyrwyr Blwyddyn 12 yn ystod yr wythnosau ar ôl gwyliau hanner tymor Sulgwyn:

Wythnos	Gweithgaredd
7 - 11 Mehefin	Cyfnod astudio adref (tasgau ymchwil pynciol i'w rhannu wythnos nesaf)
14 - 18 Mehefin	Derbyn graddau UG Dros Dro ar 14eg Mehefin a gwersi pynciau Safon Uwch
21 - 25 Mehefin	Wythnos Cynllunio'r Dyfodol
28 Mehefin - 2 Gorffennaf	Wythnos Y Fagloriaeth
5 - 9 Gorffennaf	Gwersi pynciau Safon Uwch
12 - 16 Gorffennaf	Gwersi pynciau Safon Uwch

Byddwn yn ddiolchgar iawn eich bod chi a'ch plentyn/plant yn trafod y pwyntiau uchod. Hyd yn hyn, rydym yn falch iawn i weld lefelau presenoldeb uchel yn yr ysgol a hoffem weld hyn yn parhau hyd at gwyliau'r hanner tymor. Mae hyn i'w ganmol a diolch i'r myfyrwyr a chi, fel rhieni, am eich cefnogaeth gyda'r broses hyn oll.

Atodaf y tasgau ymchwil bydd disgwyl i'n myfyrwyr ym mlwyddyn 12 gwblhau yn ystod yr wythnos cyntaf wedi gwyliau'r hanner tymor tra'n astudio adref (7fed-11eg Mehefin). Bydd y tasgau ymchwil yma'n paratoi'r myfyrwyr ar gyfer y cyrsiau Safon Uwch ac yn gyfle i ddatblygu sgiliau ymchwilio a gweithio'n annibynnol.

Bydd Graddau Uwch Gyfrannol Dros Dro'r Ganolfan yn cael eu rhannu gyda'n myfyrwyr ym mlwyddyn 12 ar fore dydd Llun, 14eg o Fehefin. Yna, bydd modd trefnu apwyntiad gydag aelod o Uwch Dîm Arwain Ysgol Bro Pedr ar ddydd Iau neu ddydd Gwener, 17eg neu 18fed o Fehefin, os rydych chi a'ch plentyn am drafod y canlyniadau Uwch Gyfrannol dros dro. Byddwn yn danfon llythyr arall atoch gyda manylion ynglŷn â sut y mae gwneud yr apwyntiadau yma drwy School Cloud cyn 14eg o Fehefin.

Os oes unrhyw gwestiwn, plis e-bostiwch gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Yn ddiffuant,

Jane Wyn.
(Pennaeth)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

20 May 2021

*** A message for the attention of parents of Year 12 students**

Dear Parent / Guardian,

I hope that you and your family are keeping well during these uncertain times. It is very pleasing to say that the assessments are going smoothly with our Year 12 students and a big thank you to you, as parents, and to our students for your support with this process.

While we await further information from Qualifications Wales and WJEC on how Year 12 students' Advanced Level grades will be awarded next year, we would like to inform you of the proposed plan for our Year 12 students up to the end of the academic year. Firstly, we would like to emphasise that the Advanced Subsidiary lessons for Year 12 students will continue until Thursday, 27th May. It is essential that all students are fully engaged in the learning, although the subject assessment period may be over in some subjects.

Here is the plan for our Year 12 students in the weeks following the Whitsun half term holiday:

Week	Activity
7 - 11 June	Study time at home (subject specific research tasks to be shared next week)
14 - 18 June	Receive Provisional AS grades on 14th June and A level subject lessons
21 - 25 June	Planning the Future week
28 June - 2 July	Welsh Baccalaureate week
5 - 9 July	Advanced Level subject lessons
12 - 16 July	Advanced Level subject lessons

We would be very grateful if you and your child(ren) could discuss the above points. So far, we are very pleased to see high attendance levels and we would like to see this continue up to the half term holidays. This is to be commended and thanks to the students and you, as parents, for your support in this process.

The research tasks that our Year 12 students will be expected to complete during the first week after the half term holiday while studying at home (7th-11th June) are attached. These research tasks will prepare the students for the A level courses and provide an opportunity to develop research skills and to work independently.

The Centre's Provisional Advanced Subsidiary Grades will be shared with our Year 12 students on Monday morning, June 14th. It will then be possible to make an appointment with a member of Ysgol Bro Pedr's Senior Leadership Team on Thursday or Friday, 17th or 18th June, if you and your child wish to discuss the provisional AS grades. We will send you another letter with details of how to make these appointments through School Cloud before June 14th.

If you have any questions, please email gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Yours sincerely,

Jane Wyn.
(Headteacher)

Blwyddyn 12 - Tasgau Ymchwil tra'n astudio adref (7fed-11eg Mehefin 2021)
Year 12 - Research Tasks while studying at home (7th-11th June 2021)

Pwnc Subject	Tasg Ymchwil Research Task	Erbyn pryd? By when?
Saesneg Llenyddiaeth English Literature	Ymchwil i gofiannau Edgar Allan Poe a George Saunders gan roi sylw arbennig i'r ffactorau cyd-destunol a ddylanwadodd ar eu hysgrifennu. <i>Research into the biographies of Edgar Allan Poe and George Saunders paying particular attention to the contextual factors that influenced their writing.</i>	17.06.2021
Mathemateg Mathematics	Ymchwilio 'Profi Rhagdybiaeth' (Hypothesis Testing) gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar Integral. Gallwch geisio ambell gwestiwn yn yr uned 'profi fy hun' unwaith byddwch wedi ymchwilio. <i>Investigate 'Hypothesis Testing' using the information on the Integral website. You can try some questions in the 'test yourself' section once you have read up on the theory.</i>	14.06.2021
Iechyd a Gofal Health and Social Care	Ymchwilio i natur newidiol cymdeithas yng Nghymru o ran safonau byw, oedran mamau, strwythur teuluol, llygredd a chyflogaeth/diweithdra a thrafod yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ofal plant. <i>Research into the changing nature of society in Wales with regards to living standards, maternal age, family structure, pollution and employment/unemployment and discuss the impact this has on childcare.</i>	14.06.2021
Dylunio a Thechnoleg Design Technology	Spec. Cyf. 2.2a Ymchwilio a pharatoi adroddiad ar ddefnyddio astudiaethau dichonoldeb ar ymarferoldeb atebion arfaethedig i broblemau. Bydd angen trafod buddion astudiaethau dichonoldeb i ddarganfod i ba raddau y bydd ffactorau fel galw tebygol, cost cynhyrchu,	14.06.2021

	<p>argaeledd deunyddiau a chynhyrchion cystadleuwyr yn dylanwadu ar hyfywedd masnachol cynnyrch. Mae'r dasg hon wedi'i gosod fel aseiniad yn Teams. Cyflwynwch eich adroddiad trwy Teams.</p> <p><i>Spec. Ref. 2.2a</i> <i>Research and prepare a report on the use of feasibility studies on the practicability of proposed solutions to problems. You will need to discuss the benefits of feasibility studies to find out the extent to which factors such as likely demand, cost of manufacture, availability of materials and competitors' products will influence the commercial viability of a product. This task has been set as an assignment in Teams. Please submit your report via Teams.</i></p>	
<p>Bioleg Biology</p>	<p>Cwblhewch pob un o'r 5 tasg ymchwil yn y llyfryn 'Imiwnoleg a Chlefydau - Rhan 1: Clefyd'. Gellir dod o hyd i'r llyfryn hwn ar y Teams Bioleg Blwyddyn 13 newydd. Cwblhewch y tasgau'n electronig ar Teams neu ar bapur a llwythwch ddelweddau o'ch gwaith gorffenedig i Teams.</p> <p><i>Complete all 5 research tasks within the 'Immunology and Diseases - Part 1: Disease' booklet. This booklet can be found on the new Year 13 Biology Team. Complete the tasks electronically on Teams or on paper and upload images of your completed work to Teams.</i></p>	<p>17.06.2021</p>
<p>Astudiaethau Crefyddol Religious Studies</p>	<p>Creu nodiadau manwl ar y pynciau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Hanes Iddewon yng Ngwlad Pwyl. - Rabbi Yisrael ben Eliezer (Baal Shem Tov) Beth ddysgodd? Beth wnaeth ei ddysgeidiaeth yn berthnasol? Sut oedd e'n wahanol i Rabbis y Mitnagdim (Elias ben Solomon: Gaon of Vilna) - Y Mitnagdim (rhesymau dros wrthwynebiad yn erbyn yr Hasidiaeth) 	<p>15.06.2021</p>

	<p><i>Create detailed notes on the following topics:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>History of Jews in Poland.</i> - <i>Rabbi Yisrael ben Eliezer (Baal Shem Tov) What did he teach? What made his teachings relevant? How was he different to the Rabbis of the Mitnagdim (Elijah ben Solomon: Gaon of Vilna)</i> - <i>The Mitnagdim (reasons for opposition against the Hasidism)</i> 	
<p>Busnes <i>Business</i></p>	<p>Cwblhewch dasg LI7 o Uned 2 sef cyfrifo cymarebau proffidioldeb, hylifedd ac effeithiolrwydd</p> <p><i>Complete task P7 of Unit 2 which includes calculating profitability, liquidity and effectiveness ratios</i></p>	<p>10.06.2021</p>
<p>Cemeg <i>Chemistry</i></p>	<p>Gofynnir i chi ymchwilio'n llawn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - egwyddorion y gell tanwydd hydrogen ac yna crynhoi ei buddion a'i anfanteision. <li style="padding-left: 40px;">* gellir defnyddio diagramau wrth grynhai eich canfyddiadau. - y bondio a'r strwythur mewn nitrid boron hecsagonol a chiwbig ac egluro sut mae'r rhain yn cysylltu â'u priodweddau a'u defnyddiau. <li style="padding-left: 40px;">* gellir defnyddio diagramau wrth grynhai eich canfyddiadau. <p>Mae'r ddau wedi'u gosod fel aseiniadau a gellir eu cyflwyno trwy Teams neu ar bapur.</p>	<p>14.06.2021</p>

	<p><i>You are asked to fully research:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>the principles of the hydrogen fuel cell and then summarise both its benefits and drawbacks.</i> <i>* diagrams may be used when summarising your findings.</i> - <i>the bonding and structure in hexagonal and cubic boron nitride and explain how these relate to their properties and uses.</i> <i>* diagrams may be used when summarising your findings.</i> <p><i>Both have been set as Assignments and can be submitted via Teams or on paper.</i></p>	
<p>Cymdeithaseg Sociology</p>	<p>Pam mae dynion yn fwy tebygol o gyflawni troseddau na menywod? / Pam mae menywod yn fwy tebygol o ddiodeff trosedd na dynion?</p> <p><i>Why are men more likely to commit crimes than women? / Why are women more likely to be victims of crime than men?</i></p>	<p>15.06.2021</p>
<p>Gwasanaethau Cyhoeddus Public Services</p>	<p>Uned 2, Tasg 1b (M1) Ymchwiliwch a chwblhewch adroddiad yn cymharu'r dulliau arweinyddiaeth sy'n cael eu ddefnyddio mewn dau wahanol wasanaeth cyhoeddus.</p> <p>Unit 2, Task 1b (M1) <i>Research and write a report comparing leadership styles that you are likely to see in two different public services.</i></p>	<p>13.06.2021</p>
<p>Ffiseg Physics</p>	<p>Cwblhewch adnodd astudio sy'n ateb y canlynol:</p>	<p>14.06.2021</p>

- Beth sy'n gwneud rhywbeth ymbelydrol?
- Beth mae'r llythrennau yn nodiant A_ZX yn ei gynrychioli mewn hafaliadau niwclear?
- Beth yw priodweddau'r 3 math o ymbelydredd niwclear, alffa, beta a gama? (dylai hyn gynnwys natur yr ymbelydredd, ei symbolau niwclear, ei alluoedd ïoneiddio, ei amsugno, ei ddefnyddiau a'i wefrau.)
- Pa ddulliau y gallem eu defnyddio i wahaniaethu rhwng alffa, beta a gama? (cofiwch mai Safon Uwch yw hon felly cynhwyswch y ddau arbrawf amsugno, ond hefyd gwyradau mewn meysydd magnetig)
- Beth yw ymbelydredd cefndir?

Complete a study resource that answers the following:

- *What makes something radioactive?*
- *What do the letters in the A_ZX notation represent in nuclear equations?*
- *What are the properties of the 3 types of nuclear radiation, alpha, beta and gamma? (this should include the nature of the radiation, it's nuclear symbols, its ionisation abilities, absorption, uses and charges.)*
- *What methods could we use to distinguish between alpha, beta and gamma? (remember this is A-level so include both absorption experiments, but also deflections in magnetic fields)*

	- <i>What is background radiation?</i>	
Hanes History	Ymchwil i Booker Washington a William Du Bois. Canolbwyntiwch ar nodau, tactegau a gwahanol ymatebion a gafodd y ddau ddyn. Sut a pham roedd y ddau ddyn mor wahanol? Pa effaith a gawsant ar y Mudiad Hawliau Sifil cynnar? A oeddent yn effeithiol neu a wnaethant ddal y symudiad yn ôl? <i>Research into Booker Washington and William Du Bois. Focus on aims, tactics and different reactions both men had. How and why were both men so different? What impact did they have on the early Civil Rights Movement? Were they effective or did they hold the movement back?</i>	17.06.2021
	Ymchwiliwch a pharatowch nodiadau ar y pwnc canlynol. Gall eich cynllun fod ar ffurf nodiadau ysgrifenedig, pwyntiau bwled neu fap meddwl. Sut gwnaeth Hitler atgyfnerthu ei safle yn yr Almaen rhwng Ionawr 1933 ac Awst 1934? <i>Please research and prepare notes on the following topic. Your plan could take the form of written notes, bullet points or a mind map.</i> <i>How did Hitler consolidate his position in Germany between January 1933 and August 1934?</i>	15.06.2021
Ffotograffiaeth / Graffeg Photography / Graphics	Ymchwili i ffotogyfosodiad. Edrychwch ar enghreifftiau artistiaid / ffotograffwyr a chynhyrchu tudalen collage ysbrydoledig. Cwblhewch 3 darn montage gwahanol, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau.	14.06.2021

	<p><i>Investigate a photomontage. Look at artist / photographer examples and produce an inspirational collage page. Complete 3 different montage pieces, using a variety of techniques.</i></p>	
<p>Addysg Gorfforol Physical Education</p>	<p>Nodwch eich prif wendid yn y weithgaredd rydych wedi dewis. Ymchwiliwch i wahanol dechnegau i wella hyn a'u cymharu ag athletwr elitaidd. Nodwch strategaethau gwahanol i weithio arnynt er mwyn eich galluogi i wella'r gwendid hwn.</p> <p><i>Identify the main weakness in your chosen activity. Research different techniques to improve this and compare with an elite athlete. Identify different strategies to work on that will enable you to improve this weakness.</i></p>	<p>14.06.2021</p>
<p>Mathemateg Pellach Further Mathematics</p>	<p>Ymchwilio i fatricsau 3x3 gan ddefnyddio'r wybodaeth ar wefan Integral. Rydych yn gyfarwydd â matricsau 2x2. Blwyddyn nesaf, byddwn yn ymestyn ar y gwaith o eleni. Gallwch geisio ambell gwestiwn wedyn yn yr uned' profi fy hun' unwaith byddwch wedi ymchwilio.</p> <p><i>Investigate 3x3 matrices using the information on the Integral website. You are familiar with 2x2 matrices. Next year we will extend on your knowledge from this year. You can try some questions in the 'test yourself' section once you have read up on the theory.</i></p>	<p>14.06.2021</p>
<p>Cymraeg Welsh</p>	<p>Ymchwiliwch am y bardd Dafydd ap Gwilym. Ymchwiliwch am ei gefndir, ei themâu ac yn fwyaf arbennig cefndir y cywyddau 'Trafferth mewn Tafarn,' 'Yr Wylan' a 'Mis Mai a Mis Tachwedd.'</p> <p><i>Research the poet Dafydd ap Gwilym. Investigate his background, themes and in particular the background to the poems 'Trafferth mewn Tafarn', 'Yr Wylan' a 'Mis Mai a Mis Tachwedd'.</i></p>	<p>14.06.2021</p>

<p>Daearyddiaeth Geography</p>	<p>3.2.10 - Rheoli llygredd cefnforoedd</p> <p>Gwylwch Blue Planet II ar iPlayer. Pennod rhif 7 - Our Blue Planet.</p> <p>https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/b09jbn5f/blue-planet-ii-series-1-7-our-blue-planet</p> <p>Darllenwch nodiadau 3.2.10. Defnyddiwch wybodaeth o'r rhaglen ddogfen, y nodiadau a'ch ymchwil personol i greu cyflwyniad PowerPoint.</p> <p>Cofiwch gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Prif ffynonellau, achosion a chanlyniadau llygredd cefnforoedd• Strategaethau i reoli gwastraff morol• Astudiaethau achos. <p>3.2.10 - Managing ocean pollution</p> <p>Watch Blue Planet II on iPlayer. Episode 7 - Our Blue Planet.</p> <p>https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/b09jbn5f/blue-planet-ii-series-1-7-our-blue-planet</p>	<p>16.06.2021</p>
---	--	--------------------------

	<p><i>Read the notes - 3.2.10. Use information from the documentary, the notes and your own research to create a PowerPoint presentation.</i></p> <p><i>Remember to include:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Main sources, causes and consequences of ocean pollution</i> • <i>Strategies to manage marine waste</i> • <i>Case studies</i> 	
Celf Art	<p>Ymchwiliwch i thema addas ar gyfer eich cwrs Safon Uwch newydd. Cysylltwch â mi trwy Teams/sianel breifat i gynnig/cytuno ar y thema. Angen creu diagram pry cop A3 yn ymchwilio i'r thema yn eich llyfrau braslunio A3 newydd ar dudalen 2 a 3. Byddaf yn rhoi manylion yr is-benawdau sy'n ofynnol ar Posts ein Teams. Unrhyw gwestiynau, cysylltwch â mi.</p> <p><i>Research a suitable theme for your new A Level course. Contact me via Teams/private channel to propose/agree on the theme. Create an A3 spider diagram researching the theme in your new A3 sketchbooks on Page 2 & 3. I'll put the details of sub-headings required on our Teams posts. Any questions, please contact me.</i></p>	14.06.21
Ffrangeg French	<p>Ymchwil ar gyfer y cyflwyniad personol ar ddylanwad cyfraith seciwlar yn Ffrainc.</p> <p><i>Research for the personal presentation on the influence of secular law in France.</i></p>	
Y Fagloriaeth Welsh Baccaulaureate	<p>Defnyddiwch yr adnoddau sydd yn y cyflwyniad ar eich Tîm Bagloriaeth i ddechrau ymchwilio teitlau posib ar gyfer y Prosiect Unigol.</p> <p><i>Use the resources on your Welsh Baccaulaureate Team to start researching possible titles for the Individual Project.</i></p>	14.06.2021

<p>Cynllunio'r Dyfodol <i>Planning the Future</i></p>	<p>Ewch i'r ardal aseiniadau yn Tîm eich dosbarth cofrestru. Dewiswch yr aseiniad 'Prifysgol' neu 'Byd Gwaith' (yn ddibynnol ar eich cynlluniau ar ôl gorffen blwyddyn 13). Dilynwch y cyfarwyddiadau yn yr aseiniad rydych wedi'i ddewis er mwyn cwblhau'r ymchwil angenrheidiol.</p> <p><i>Go to the Assignments area of your registration class Team. Choose the 'University' or 'World of Work' assignment (depending on your plans after completing Year 13). Follow the instructions in the assignment you have chosen to complete the necessary research.</i></p>	<p>18.06.2021</p>
--	--	--------------------------